# Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol (Gwefan)

**Cyflog: £32,046-£34,107 y flwyddyn (Gradd 6)**

**Math o gontract: Amser llawn, cyfnod penodol hyd at 31 Hydref 2026**

**Yr her**

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol, a hefyd i ymuno â thîm Marchnata a Chyfathrebu creadigol a chydweithredol. Yn y tîm hwn, bydd eich gwaith chi'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella ein presenoldeb digidol ac ymgysylltu miloedd o ddysgwyr, athrawon a rhanddeiliaid ledled Cymru a thu hwnt.

**Y rôl**

Fel Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol, byddwch chi'n allweddol yn rheoli a datblygu presenoldeb ar-lein CBAC ac Eduqas. Byddwch chi'n gyfrifol am sicrhau bod ein gwefannau, ymgyrchoedd e-bost, a chynnwys digidol yn ddeniadol, yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac yn cyfateb i weledigaeth ein brand.

Dyma rôl lle byddwch yn cyfuno sgiliau technegol, creadigrwydd, a chydweithio gan effeithio go iawn ar ein cyfathrebu digidol.

**Amdanoch chi**

Rydym yn chwilio am unigolyn y mae marchnata digidol wir yn mynd â'i fryd sy'n talu sylw i'r manylion lleiaf. Bydd gennych brofiad o ddefnyddio systemau rheoli cynnwys a dealltwriaeth gadarn o beth yw'r arfer gorau yn y maes digidol, o ddadansoddeg i Optimeiddio Peiriannau Chwilio. Mae'n allweddol gallu mynd ati i ymdrin yn greadigol â chynnwys a dylunio, ynghyd â'r gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun.

Byddwch yn hyderus yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y busnes, gan allu addasu eich ffordd o gyfathrebu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, ac ni fydd rheoli sawl project ar unwaith mewn amgylchedd prysur yn rhywbeth sy'n eich taflu. Byddai'n fanteisiol bod â phrofiad ag offer megis Google Analytics, Umbraco CMS, Canva neu Adobe Creative Cloud. Byddai'n fanteisiol meddu ar sgiliau yn yr iaith Gymraeg ond nid ydynt yn hanfodol, a gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

**Buddion**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion rhagorol ac yn ymfalchïo mewn gweithio mewn lle cynhwysol a chefnogol. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag aelod o'n tîm AD (ad@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 23:59, dydd Mawrth 14 Hydref 2025

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | **Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol (Gwefan)** |
| **Adran:** | Marchnata a Chyfathrebu |
| **Isadran:** | Strategaeth |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Marchnata Digidol |
| **Gradd:** | 6 |
| **Lleoliad:** | Hybrid (Rhodfa'r Gorllewin a gartref) |

## Prif bwrpas y Swydd:

Byddwch yn cynorthwyo'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i drefnu, darparu a gwerthuso ymgyrchoedd marchnata aml-sianel i hyrwyddo cynhyrchion a gwasanaethau addysgol CBAC.

Fel ceidwad 3 gwefan y brand eich cyfrifoldeb chi fydd manwl gywirdeb a dyluniad y cynnwys ar draws y safleoedd hyn, gan sicrhau bod unrhyw geisiadau gan y busnes yn cael eu rheoli a'u cwblhau i'r safon uchaf ac o fewn y CLG a gytunwyd.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Cynnwys gwefan**

- Argymell a gweithredu gwelliannau i dudalennau gwe CBAC ac Eduqas ar y cyd â'r Rheolwr Marchnata Digidol.
- Gweithredu fel ceidwad gwefannau'r brand, gan sicrhau bod cynnwys yn gywir, yn hygyrch, ac yn canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Ymateb i adborth gan randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn gwella cynnwys, dyluniad, a phrofiad defnyddwyr.
- Diweddaru a chynnal a chadw dogfennau allweddol a chynnwys gwe ar wefannau cyhoeddus CBAC.
- Briffio a rheoli datblygwyr ar brojectau neu atebion trwsio, gan fonitro cynnydd ac uwchgyfeirio problemau pan fo angen gwneud hynny.
- Paratoi a chylchredeg adroddiadau perfformiad gwefan misol i Reolwr y Project.
- Cefnogi Optimeiddio Peiriannau Chwilio a pha mor hawdd yw darganfod cynnwys ar y cyd â'n hasiantaeth ddigidol.
- Cydweithio â chydweithwyr ar draws y corff er mwyn sicrhau bod unrhyw negeseuon yn gyson ac yn cyfateb i amcanion busnes.

**Marchnata e-bost**

- Cynorthwyo'r Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol (Ymgyrchoedd) i greu, datblygu a rheoli ymgyrchoedd e-bost ar gyfer cymwysterau CBAC, WJEC ac Eduqas.

- Cefnogi'r Rheolwr Marchnata Digidol o ran cynyddu maint rhestri tanysgrifwyr a gwella'r ymgysylltu.
- Cyfrannu at integreiddio marchnata e-bost â dadansoddeg gwefan i olrhain perfformiad a theithiau defnyddwyr.

**Dylunio Graffeg a Chynnwys Digidol**

- Rheoli a chyfrannu at gynhyrchu cynnwys amlgyfrwng (e.e. graffigwaith, fideo, ffeithluniau, animeiddiadau) ar gyfer gwefannau a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol .
- Creu graffigwaith wedi'i frandio i'w ddefnyddio ar draws sianeli digidol.
- Cynorthwyo cydweithwyr i gynhyrchu cynnwys deniadol ar gyfer ymgyrchoedd a phrojectau.

**Tasgau Cyffredinol**

- Cefnogi gweithrediad strategaeth farchnata a chyfathrebu CBAC.
- Gweithio gyda'r tîm marchnata a chydweithwyr eraill ar draws y busnes i roi ymgyrchoedd integredig ar waith.
- Sicrhau bod y cynnwys ar y wefan a llwyfannau digidol yn gyfoes, gan adolygu copi, drafftio cynnwys newydd, a gwirio manwl gywirdeb cyn cyhoeddi.
- Cyfrannu at brojectau a thasgau ychwanegol yn ôl y galw, yn unol â'r rôl.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol** |
| **Adran:** | Marchnata a Chyfathrebu |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod ddymunol:**

- Profiad cryf o Systemau Rheoli Cynnwys (e.e. Umbraco neu debyg).
- Y gallu i lunio cynnwys o safon sy'n gyson a pherthnasol.
- Sgiliau trefnu cryf â'r gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun.
- Agwedd greadigol at ddatrys problemau a datblygu cynnwys.
- Profiad o weithio gydag offer dadansoddeg (e.e. Google Analytics, Google Tag Manager, Bing).
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda'r gallu i addasu negeseuon i gynulleidfaoedd gwahanol.

**Dymunol**

- Profiad o farchnata e-bost (dylunio, targedu, adrodd yn ôl).
- Y gallu i weithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwybodaeth

**Hynod ddymunol:**

- Dealltwriaeth o ymgyrchoedd marchnata e-bost a marchnata digidol.
- Gwybodaeth am ddata/dadansoddeg a rôl hynny mewn strategaeth ddigidol.
- Cynefindra ag offer dylunio graffeg a golygu fideo.

**Dymunol**

- Ymwybyddiaeth o safonau hygyrchedd ac arferion gorau ar gyfer cynnwys digidol.

## Profiad

**Hynod ddymunol**:

- Profiad yn rheoli neu'n cyfrannu at brojectau ac ymgyrchoedd digidol.

**Dymunol:**

- Profiad yn defnyddio offer olrhain gwefannau i ddadansoddi ymddygiad ymwelwyr a gwella perfformiad.

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Gradd mewn Marchnata neu bwnc cysylltiedig, neu brofiad cywerth.

- Profiad o weithio gyda System Rheoli Cynnwys Umbraco
- Cynefindra â Canva neu offer dylunio ar-lein cyfatebol.

**Dymunol:**

- Aelod o'r Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM)
- Profiad gydag Adobe Creative Cloud (Illustrator, Photoshop, Premiere Pro, After Effects, InDesign, neu gywerth).

## Gofynion Eraill

**Hynod Ddymunol**

- Parodrwydd i fod yn hyblyg ac yn gallu addasu yn y gwaith.
- Yn gallu cymell eich hun a gweithio gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl.
- Dibynadwy, prydlon, a chydweithredol.

**Dymunol:**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd tîm sy'n symud yn gyflym

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | Terms and Conditions of Service | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | Swyddog Gweithredol Marchnata Digidol / Digital Marketing Executive | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £32,046 - £34,107 y flwyddyn/ per annum | **Gradd:**<br>**Grade:** | Gradd 6 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply | | |

**Math o Gytundeb:** | **Contract Type:**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Llawn amser / Full Time | | |
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** | |
| ☒ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | 31 Hydref/ October 2026 |
| ☐ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | |
| | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** | 36.5 |

**Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:**

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **23:59, dydd Mawrth 14 Hydref 2025**.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **23:59, Tuesday 14 October 2025**.